**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

28 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) 2021**
**Rheoliadau Deddf Ifori (Cychwyn Rhif 1) 2021**

Rydw i'n ysgrifennu atoch i roi gwybod bod i yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliad Gwaharddiadau Ifori (Esemptiad) (Proses a Gweithdrefn) 2021 ar 3 Chwefror 2022. Bydd y rheoliadau yma yn dod i rym ar 24 Chwefror 2022.

Roedd caniatâd wedi'i ofyn gan Victoria Prentis MP, Gweinidog am Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd i wneud y rheoliadau yma, fydd yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) 2021 ("y Rheoliadau Gwahardd") yn gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer gweithredu'r prosesau eithrio o dan Ddeddf Ifori (2018). Bydd hyn yn berthnasol i'r DU cyfan a bydd yn caniatáu i bersonau gofrestru eitemau sy'n cynnwys ifori i'w heithrio rhag y gwaharddiad ar werthiannau ifori yn y pen draw, yn amodol ar feini prawf penodol.

Mae Rheoliadau Deddf Ifori (Cychwyn Rhif 1) 2021 ("y Rheoliadau Cychwyn") yn cyd-fynd â'r Rheoliadau Gwaharddiadau. Bydd y rheoliadau hyn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig Deddf Ifori (2018), sy'n ymdrin â chofrestru ac eithrio ar 1 Chwefror 2022 (ar gyfer pwerau gwneud rheoliadau) a 24 Chwefror 2022 at bob diben sy'n weddill.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw i ddeddfu i Gymru mewn materion sydd â chymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, gan fod safbwynt Llywodraeth Cymru ar fasnach ifori yn alinio â safbwynt DEFRA a gweinyddiaethau eraill y DU yr wyf yn rhoi caniatâd i'r ddeddfwriaeth hwn. Credaf fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn dod â chysondeb i'r cyflwyniad o waharddiad ar werthiannau ifori yn y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Heb y caniatâd yma byddai Cymru mewn sefyllfa wahanol i weinyddiaethau eraill y DU yn ei dull o wahardd gwerthu ifori. Gallai hyn leihau effeithiau cadarnhaol gwahardd gwerthiannau ifori ar draws y DU a chynnal y galw am gynhyrchion sy'n cynnwys ifori, ac yn cyfrannu at y bygythiad parhaus i boblogaethau eliffantod yn fyd-eang, sy'n cael eu hela'n anghyfreithlon ar gyfer ifori.

Ni fydd y Rheoliadau Gwaharddiadau yn dechrau gwahardd gwerthiannau ifori yn y DU. Bydd y gwaharddiad gwerthiannau ifori yn dod i rym yn llawn yn wanwyn 2022.

Rydw i'n copio'r llythyr yma i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Isadeiledd a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig am eu wybodaeth.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd